| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **13 Chwefror 2023** |
| **Teitl :** | **Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Er ystyriaeth** |

**Cefndir**

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor fel rhan o'i waith o fonitro safonau o fewn y Cyngor.

2. Mae Cod Ymddygiad Cyngor Gwynedd yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau gofrestru unrhyw gynnig o letygarwch, buddiant materol neu fantais sy'n werth mwy na £25 pe derbynnir y cynnig hwnnw ai peidio.

**Y Protocol**

3. Mabwysiadodd y Cyngor Brotocol ar Roddion a Lletygarwch Aelodau yn 2004. Yn sgil cyhoeddi Cod Ymddygiad newydd a Chanllawiau gan yr Ombwdsmon, adolygwyd y Protocol gan y Pwyllgor Safonau, gan gyflwyno ei argymhellion ar gyfer diwygio'r Protocol i'r Cyngor Llawn. Mabwysiadwyd y Protocol cyfredol gan y Cyngor ar 2 Mai 2013.

4. Atodir copi o'r Protocol fel Atodiad 1.

**Y Gofrestr**

5. Mae'r ffurflenni papur yn cael eu cadw gyda'i gilydd ac mae hyn yn ffurfio'r gofrestr. Mae'r pwyllgor hwn yn y gorffennol wedi trafod priodoldeb cyhoeddi'r gofrestr ar y wefan y Cyngor. Penderfynwyd bryd hynny (2014) na ddylid gwneud am y tro. Erbyn hyn mae'n orfodol rhoi'r Gofrestr Fuddiannau ar y we ond nid yw'r un orfodaeth yn ymestyn i'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

**Cydgordio**

6. Mae cynnig wedi ei wneud yn ddiweddar i ystyried gosod lefel gyfartal rhwng awdurdodau ar lefel genedlaethol a hynny ar sail wirfoddol. Mae arolwg o awdurdodau yn dangos fod y lefel yn amrywio o £20-£25 ar gyfer rhoddion a hyd at £50 ar gyfer lletygarwch mewn un achlysur. Mae'r mwyafrif wedi gosod ar £25. Byddai'n amserol i'r Pwyllgor ystyried y mater yma.

7. Mae dadl o blaid ceisio cael lefel gyfun. Mae'r Cod Ymddygiad yn gyffredin i bob awdurdod ac yn absenoldeb amgylchiadau lleol penodol ymddengys fod y cyfiawnhad ar gyfer gosod swm penodol yn gyffredin.

**Argymhelliad**

**8. Gofynnir i'r Pwyllgor:**

(a) nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad

(b) gynnig unrhyw sylwadau ar yr adroddiad